OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1338 (Cy.123)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Ardaloedd y Perthyn Disgyblion a Myfyrwyr iddynt) (Diwygio) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*29 Mai 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*2 Mehefin 2009*
Yn dod i rym - -	*24 Mehefin 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 569(4) a 579(4) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Ardaloedd y Perthyn Disgyblion a Myfyrwyr iddynt) (Diwygio) (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 24 Mehefin 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Ardaloedd y Perthyn Disgyblion a Myfyrwyr iddynt) 1996(3)

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Ardaloedd y Perthyn Disgyblion a Myfyrwyr iddynt) 1996 fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), hepgorer—

""further education student" means a person in respect of whom provision for further education is made;".

(3) Yn rheoliad 2, ar ôl paragraff (3), mewnosoder—

"(4) These Regulations do not apply for the purposes of determining which authority's area a child is in for the purposes of section 321(3)(**4**) of the Education Act 1996."

(**1**) 1996 p.56.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau yr Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) **O.S. 1996/615 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1997/597.**

(**4**) Diwygir adran 321(3)(a) gan adran 140(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31) a pharagraff 76(a) o Atodlen 30 iddi, ac adran 215(1) o Ddeddf Addysg 2002 (p.32) a pharagraff 42 o Atodlen 21 iddi.